Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Ysgol Greenfields

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013

## gan

## Estyn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru yn adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni a, lle na chaiff y rhain eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/11/2013**

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Greenfields |
| **Rhif yr ysgol** | 679/6016 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 18 ac 19 Medi 2013 |
| **Perchennog** | CareTech UK |
| **Staff** | Pennaeth yr Ysgol<br>Dirprwy Bennaeth yr Ysgol/Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig<br>Tri aelod staff addysgu<br>Cydlynydd gyrfaoedd |
| **Nifer y disgyblion** | Deg disgybl yn yr ysgol<br>Pum myfyriwr ôl 16 oed sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allanol |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd i ddisgyblion rhwng 11 a 19 oed |
| **Y math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Mai 2011 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Rhagfyr 2012 |
| **Ymweliad diwethaf gan AGGCC** | Dd/B |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Gill Sims |
| **Arolygydd Tîm** | Ann Dackevych |
| **Arolygydd Tîm** | Claire Yardley |

## Cyd-destun

Arolygodd Estyn Greenfields Adolescent Care o dan A163 ym Mai 2011. Y pryd hwnnw, roedd y perchennog yn darparu addysg yn fewnol i breswylwyr pob un o bum cartref y sefydliad i blant yn ne-ddwyrain Cymru.

Ym mis Tachwedd 2011, gwnaeth y perchennog newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth addysg. Agorodd Ysgol Greenfields mewn tŷ Edwardaidd mawr yng Nghasnewydd.

Mae'r ysgol yn darparu addysg dydd i ddisgyblion rhwng 11 a 19 oed, sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Ar hyn o bryd, mae 15 disgybl ar y gofrestr, ac maent yn byw yn y cartrefi plant sy'n cael eu cynnal gan CareTech UK. http://www.cv-library.co.uk/list-jobs/235261/CareTech-UK

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Dyma gryfderau'r ysgol:

- mae safon gwaith disgyblion yn dda. Caiff gwaith ei gyflwyno'n dda ac mae tystiolaeth glir bod disgyblion yn gwneud cynnydd o ran medrau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith;
- mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd digynnwrf, cyfeillgar a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus i ddysgu;
- mae disgyblion yn elwa ar gael cydlynydd gyrfaoedd amser llawn sy'n gweithio gyda'r holl ddisgyblion i roi cyngor iddynt ac ennyn eu diddordeb mewn lleoliadau gwaith a dewisiadau gyrfaol. Mae nifer y cyfleoedd am leoliadau gwaith yn dda ac yn cynyddu;
- mae gan ddisgyblion fynediad da at ystod eang o brofiadau dysgu ehangach, fel Cynllun Gwobrau Dug Caeredin, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Prosiect Phoenix a gweithgareddau menter sy'n gysylltiedig â digwyddiadau codi arian at achosion da;
- mae gan yr ysgol bolisi rhyngrwyd priodol sy'n rhoi pwyslais sylweddol ar ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Caiff hyn ei gefnogi'n dda gan athrawon yn y dosbarth. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o sut i osgoi sefyllfaoedd a allai beri risg iddynt; ac
- mae'r ysgol yn hyrwyddo ffyrdd o fyw a dewisiadau iach drwy arddangosfeydd ar y waliau a thrwy'r cwricwlwm.

### Meysydd i'w datblygu

Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:

- nid yw'r polisi amddiffyn plant yn cynnwys datganiad ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer defnyddio ardaloedd ymdawelu ac nid oes cysylltiad clir â pholisïau eraill yr ysgol, fel ymddygiad, gwrth-fwlio a diogelwch ar y rhyngrwyd**;**
- nid yw staff yn cadw cofnodion gofalus o'r adegau pan fydd disgyblion yn dewis gweithio ar wahân i ddisgyblion eraill fel nad ydynt yn cynhyrfu. O ganlyniad,

byddai staff yn methu dweud ble yn union yr oedd y disgyblion, na phwy a oedd yn eu goruchwylio, petaent yn cael gwybod am ddigwyddiad yn ddiweddarach;

- mae gan yr ysgol broses glir ar gyfer cydweithio â staff gofal i fonitro prydlondeb disgyblion. Mae'r gwaith o fonitro presenoldeb disgyblion ôl-16 oed mewn sefydliadau addysgol eraill yn briodol. Mae'r ysgol yn datblygu system olrhain ar-lein ddefnyddiol i gofnodi'r holl wybodaeth am ddisgyblion, gan gynnwys targedau dysgu a phresenoldeb. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith y fenter hon. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer monitro, olrhain a dadansoddi presenoldeb disgyblion yn yr ysgol;

- mae'r ysgol wedi cyflwyno polisi newydd i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Caiff arsylwadau cymheiriaid eu cynnal yn rheolaidd ac mae strwythur rheoli llinell clir ar gyfer atebolrwydd. Fodd bynnag, nid oes mesur cadarn a systematig o ansawdd yr addysgu ac effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion;

- mae'r ysgol wedi datblygu disgrifiadau swydd ar gyfer staff addysgu ac mae rolau a chyfrifoldebau yn glir. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno proses ar gyfer rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw hon ar waith yn llawn eto. Nid yw'r ysgol yn gallu mesur effeithiolrwydd y broses rheoli perfformiad na'r effaith ar ddeilliannau disgyblion; ac

- mae gan bob disgybl gynllun addysg unigol (CAU) priodol wedi'i seilio ar asesiad cychwynnol defnyddiol. Fodd bynnag, er bod targedau gan ddisgyblion ar gyfer ymddygiad a gwaith academaidd, mae llawer o'r rhain yn rhy fras. Nid ydynt yn ddigon penodol er mwyn i ddisgyblion ac athrawon fesur camau cynnydd bychain yn effeithiol.

## Argymhellion

**A1** Gwella polisi amddiffyn plant yr ysgol er mwyn cynnwys arweiniad ar gyfer defnyddio'r ardaloedd ymdawelu a chysylltu'r polisi â pholisïau eraill yr ysgol, gan gynnwys ymddygiad, gwrth-fwlio a diogelwch ar y rhyngrwyd

**A2** Cyflwyno system ar gyfer cofnodi'r amseroedd a'r manylion pan fydd disgyblion yn gweithio i ffwrdd o'u dosbarth fel nad ydynt yn cynhyrfu

**A3** Datblygu system gadarn i fonitro, olrhain a dadansoddi presenoldeb disgyblion yn yr ysgol

**A4** Gwella'r rhaglen bresennol ar gyfer datblygu staff i gynnwys mesur o ansawdd yr addysgu ac effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion

**A5** Rhoi'r broses rheoli perfformiad ar waith yn llawn

**A6** Gwella targedau mewn cynlluniau addysg unigol er mwyn sicrhau y gellir mesur cynnydd a chyflawniad yn hawdd

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu diwethaf

**Argymhelliad 1: Cymryd camau i gydymffurfio'n llawn â'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer Safonau 1, 3 a 5**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr ymweliad monitro diwethaf ac mae'r adeilad yn cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch erbyn hyn. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn adnoddau a gwelliannau i adeilad yr ysgol ac mae'r rhain yn bodloni gofynion disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mae'r gallu i ddefnyddio byrddau gwyn yn gyfyngedig.

**Argymhelliad 2: Gwneud cais ffurfiol i CCC i wneud newidiadau perthnasol er mwyn gweithredu'r ysgol o'r safleoedd yng Nghasnewydd ac Aber-miwl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi gwneud cais ffurfiol am newid perthnasol er mwyn gweithredu Ysgol Greenfields o'r safle newydd.

Mae'r ysgol yn Aber-miwl yn gweithredu'n ysgol ar wahân.

**Argymhelliad 3: Gwella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion, a sicrhau bod presenoldeb hwyr bob amser yn cael ei gofnodi yn y cofrestri**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno proses effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r ysgol. O ganlyniad i hyn, caiff unrhyw broblemau a allai effeithio ar brydlondeb disgybl eu nodi ar unwaith. Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol wedi gwella ymwybyddiaeth yr ysgol o'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb disgyblion. Mae'r ysgol wrthi'n datblygu system wybodaeth ar-lein i gofnodi ac olrhain yr holl wybodaeth am ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith hyn. Nid yw staff yn gallu arfarnu presenoldeb ar lefel disgybl unigol, y dosbarth neu ar lefel ysgol gyfan yn y bore nac yn ystod y diwrnod ysgol, nac arfarnu effeithiolrwydd strategaethau i wella presenoldeb.

**Argymhelliad 4: Parhau i ddatblygu cwricwlwm cyfnod allweddol 4 a chynyddu ystod y cyrsiau achredig a gynigir**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae ystod gweithgareddau'r cwricwlwm wedi gwella ac mae'r holl ddisgyblion nawr yn gallu manteisio ar addysg gorfforol, gweithgareddau awyr agored a gwersi cerddoriaeth addas. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni achrediad drwy CBAC a BTEC.

**Argymhelliad 5: Cynyddu'r amser addysgu i bob disgybl er mwyn annog diddordeb mewn dysgu, a pharhau â dysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol bellach yn darparu 25 awr o addysg i bob disgybl.

**Argymhelliad 6: Egluro rolau a chyfrifoldebau staff a datblygu system o reoli perfformiad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi datblygu disgrifiadau swydd priodol ar gyfer yr holl staff addysgu. Mae gan yr ysgol strwythur diwygiedig ac mae rolau a chyfrifoldebau staff yn glir. Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer rheoli perfformiad. Fodd bynnag, mae'r broses yn newid diweddar yn yr ysgol ac nid yw ar waith yn llawn eto. Mae'n rhy gynnar eto i fesur effeithiolrwydd y broses neu'r effaith ar ddeilliannau disgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru’r ysgol hon, mae’n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau’r arolygwyr o’r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.